# Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 14EG CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Joe Yates | Prifysgol Wrecsam |
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 06 Rhagfyr 2024 fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2024/25 - ADOLYGIAD DIWEDD RHAGYFR 2024** 9 - 17

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya ac Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya) i gyflwyno'r Adroddiad.

**6. PENODI SRO Y CYNLLUN TWF AC AELODAU ARWEINIOL** 18 - 26

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) i gyflwyno'r Adroddiad.

**7. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2025/26** 27 - 38

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya ac Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya) i gyflwyno'r Adroddiad.

**8. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 3** 39 - 66

Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno'r Adroddiad.

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 10. CYDNERTH - ACHOS BUSNES LAWN

Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) a Gareth Rogers (Rheolwr Prosiect Ynni a Sero Net) i gyflwyno'r Adroddiad.

## 11. ACHOS FUSNES LLAWN PARC BRYN CEGIN

David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) i gyflwyno'r Adroddiad.

## 12. ACHOS FUSNES AMLINELLOL ANTURIAETHAU CYFRIFOL

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf) i gyflwyno'r Adroddiad.

## 13. CAIS AM NEWID CANOLBWYNT ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf) a Dafydd Jones (Rheolwr Prosiect Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) i gyflwyno'r Adroddiad.

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**06/12/2024**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Dave Hughes (Cyngor Sir Y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflenwi Busnes) a Paul Spencer (Prifysgol Bangor) a Joe Yates (Prifysgol Wrecsam).

Prif Swyddogion – Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd) Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)

Awdurdod Lletya - Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru – Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Dafydd Jones (Rheolwr Prosiect Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Sylwedydd Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Sylwedydd Llywodraeth y DU).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mark Pritchard yn Gadeirydd hyd Cyfarfod Blynyddol nesaf y Bwrdd.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Charlie McCoubrey yn Is-gadeirydd hyd Cyfarfod Blynyddol nesaf y Bwrdd.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Stuart Whitfield (Uchelgais Gogledd Cymru)

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

6. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 08 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

7. **CAIS AM NEWID Y PROSIECT CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD**

- **Cytuno mewn egwyddor i'r cais am newid i dderbynnydd y grant ar gyfer prosiect Cyn-Ysbyty Gogledd Cymru**
- **Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar fanylion y cais am newid, gan gynnwys unrhyw welliannau pellach y gallai fod eu hangen i'w cwblhau ac ymrywymo i'r Cytundeb Ariannu Grant.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cafodd yr Achos Fusnes llawn ei pharatoi ar ran Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co, Ltd a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ar 17 Mai 2024.

Roedd yr Achos Fusnes Llawn yn nodi mai 'Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co, Ltd fyddai yn cytundebu'r prosiect drwy ei gwmni daliannol - Jones Bros Ruthin Development Holdings Ltd'.

Nodwyd y trafodaethau cychwynnol nad oedd Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co Ltd i fod yn barti i unrhyw ddogfennau cytundebol oedd yn ymwneud a'r prosiect. O ganlyniad, cyflwynwyd NWH Ltd gan Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd fel derbynnydd newydd y grant a Chyfrwng at Ddibenion Arbennig (SPV) ar gyfer y prosiect gyda chwmni Jones Bros Ruthin Development Holdings Ltd yn gweithredu fel gwarantwr.

**TRAFODAETH**

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr addasiad hwn yn dechnegol iawn gan ei fod yn deillio o sut mae cwmnïau yn cael eu strwythuro. Pwysleisiwyd bod y risgiau sy'n codi wrth newid cwmni mewn cytundeb o'r math hwn yn cael ei cyfarch yn gyflawn drwy'r ffaith bod y gwarantwr yn gwmni priodol a sylweddol. Eglurwyd bod caniatáu'r newid hwn yn caniatáu i'r prosiect gyrraedd y broses o ddatblygu Cytundeb Ariannu gan bod yr Achos Busnes Lawn wedi cael ei gymeradwyo eisoes. Cadarnhawyd bod y cwmnïau wedi eu henwi'n bartion ar y Cytundeb Datblygu a roddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i NWH Ltd.

8. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 9 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym**

**Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

**9. PARC BRYN CEGIN, BANGOR – ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd, ac Uchelgais Gogledd Cymru yn ymdrin â'r materion a amlinellir yn yr adroddiad, fel y'u disgrifir yn Adran 7, ac yn argymell i'r Bwrdd Uchelgais fod Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi i'r Bwrdd ei Ystyried.**
2. **Derbyn y bydd cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol yn gweithredu fel cymeradwyaeth i'r cais am newid i'r prosiect i leihau cwmpas prosiect ar gyfer Cam 1 o 3,000 metr sgwâr i 1,856 metr sgwâr o unedau cyflogaeth newydd arfaethedig.**
3. **Cytuno ar y broses ddiwygiedig a fydd yn gweld Achos Busnes Llawn yn cael ei gyflwyno ar ôl cwblhau'r Cytundeb Cyd-fenter a chadarnhau cyllid Llywodraeth Cymru cyn dechrau caffael.**
4. **Cytuno ar egwyddorion y cynnig Cyd-fenter fel y'u nodir ac yn dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gymeradwyo a ymrwymo i'r cytundeb.**
5. **Nodi'r adenillion a ragwelir fel rhan o'r Cytundeb Cyd-fenter ac yn cymeradwyo mewn egwyddor (yn amodol ar gadarnhau'r Achos Busnes Lawn) bod yr incwm a dderbynnir yn cael ei ddyrannu i gronfa wrth gefn i'w defnyddio i ariannu'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn y blynyddoedd i ddod.**
6. **Cynnal trafodaeth bellach ar Gam 2 y Prosiect yn dilyn cwblhau Cam 1.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Parc Bryn Cegin, a'r cais am newid prosiect dilynol.

Dylai'r Bwrdd nodi na fydd angen unrhyw gytundeb arian grant ar gyfer y Prosiect hwn, gan y bydd y Cytundeb Cyd-fenter yn gweithredu fel contract cyfreithiol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Nid oes cais am gymeradwyaeth ar y cam hwn, ond gwneir hyn pan gyflwynir yr Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd yn y man.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

## 10. CAIS AM NEWID Y PROSIECT ANTURIAETHAU CYFRIFOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf a Rheolwr Prosiect Bwyd-amaeth a Thwristiaeth.

**PENDERFYNIAD**

- **Cytuno i'r cais am newid ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol ac yn cynnwys siglen ar safle Penrhyn yn y prosiect am y tro, yn amodol ar ganiatâd cynllunio.**
- **Cadarnhau na fydd unrhyw gyllid pellach ar gyfer y prosiect yn cael ei ddarparu o'r Cynllun Twf, gyda'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cais am newid i'w hariannu gan Ariannwr y Prosiect.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae ceisiadau am newidiadau i brosiectau gan Noddwyr Prosiect yn faterion i'r Bwrdd eu penderfynu.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30yb a daeth i ben am 10:35yb.

______________________________________

Cadeirydd

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**14 Chwefror 2025**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2024/25 - Adolygiad diwedd Rhagfyr 2024. |
| **AWDUR:** | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm refeniw gwirioneddol hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol. Mae hefyd yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig fel ag ar ddiwedd Rhagfyr 2024.

1.2. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Rhagfyr 2024 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1).

2.2. Bod y Bwrdd yn nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).

2.3. Bod y Bwrdd yn cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3).

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Nodi tanwariant a ragwelir o £205,405 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd y tanwariant terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei defnyddio i leihau’r swm a hawlir o’r Grant Bargen Twf Gogledd Cymru.

3.2. Nodi llithriad pellach ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £12.51m yn 2024/25 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £24.67m ar gyfer y flwyddyn.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2024, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25.

4.2. Rhagwelwyd bod y sefyllfa alldro refeniw net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 yn danwariant o £5,966 yn adolygiad diwedd Awst 2024, ond mae hyn bellach wedi cynyddu i £205,405. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf oherwydd bod y gwir setliad cyflog yn llai na swm y gyllideb, yn ogystal â'r estyniad hyd at fis Mawrth 2025 a thanwariant ar gyllideb y cynlluniau o fewn y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn caniatáu i wariant a ariannwyd yn flaenorol o'r gyllideb graidd gael ei ariannu o'r grant.

4.3. Bydd yr adroddiad alldro ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 9 Mai 2025.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

**Refeniw**

5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2. Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 yn danwariant o £205,405.

Swyddfa Rheoli Portffolio

5.3. Mae tanwariant o £43,201 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio a dangosir y prif danwariant ar y pennawd Gwariant Gweithwyr. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y chwyddiant cyflog gwirioneddol ar gyfer 2024/25 oddeutu 3% o’i gymharu â’r swm a gyllidebwyd o 6%. Mae arian gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd wedi’i ymestyn i Mawrth 2025 felly mae’r tanwariant yn pennawd Cynlluniau Ffyniant Gyffredin wedi cael ei ddefnyddio i ariannu costau tri swyddog a gyllidebwyd yn flaenorol fel rhan o’r gyllideb graidd.

5.4. Mae rhan o’r tanwariant ar bennawd y Gwariant Gweithwyr wedi cael ei ddefnyddio i ariannu staff ymgynghori dros dro i gwmpasu rôl Rheolwr Rhaglen nes bod y swydd wedi’i llenwi.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.5. Rhagwelir tanwariant o £17,250 ar bennawd Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwariant cefnogaeth allanol a ddangosir o dan brosiectau.

Cyd-bwyllgor

5.6. Mae tanwariant o £34,500 ar y pennawd Cyd-bwyllgor heb unrhyw wariant yn debygol ar benawdau ffioedd cyllidol allanol a Bwrdd Cyflawni Busnes y flwyddyn ariannol yma.

Prosiectau

5.7. Mae'r pennawd Prosiectau'n dangos gorwariant net o £181,524 ac mae hyn yn bennaf oherwydd datblygu achosion busnes y prosiectau a chostau cefnogaeth gyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf.

5.8. Mae £218,735 o sefyllfa derfynol amcangyfrifedig pennawd datblygu achosion busnes y prosiectau yn ymwneud â'r prosiect Ynni Lleol Blaengar a bydd £152,300 o'r gwariant yn cael ei ariannu o'r gronfa prosiectau.

Cynlluniau Grant

5.9. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau Ynni Ardal Leol a Cronfa Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant ac mae estyniad tan Mawrth 2025 wedi'i dderbyn ar gyfer y ddau brosiect.

5.10. Bydd y gorwariant ar y Prosiect Ynni Ardal Leol yn cael ei ariannu gan y grant dros ben fel y dangosir yn y rhan incwm.

5.11. Bydd y tanwariant o £91,753 ar y Cynlluniau Ffyniant Gyffredin yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gorwariant ar gostau gweithwyr y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ogystal a chyfrannu tuag at gostau gorbenion y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Cyfraniadau Ariannu

5.12. Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, dyraniad refeniw Grant Bargen Twf Gogledd Cymru, grant Ynni Llywodraeth Cymru, Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (secondiad staff), Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG, cronfa prosiectau a'r gronfa wrth gefn.

5.13. Gan fod gwarged yn cael ei amcangyfrif ar gyfer eleni, awgrymir bod llai o’r Grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn cael ei ddefnyddio (gyda’r union ffigwr i’w gadarnhau ddiwedd y flwyddyn) a’i drosglwyddo i gyllideb 2025/26 a fyddai wedyn yn gadael sefyllfa niwtral i’r Bwrdd ar gyfer 2024/25.

**Cronfeydd Wrth Gefn y Bwrdd Uchelgais**

5.14. Mae Atodiad 2 yn dangos amcangyfrif o’r balansau cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2025.

5.15. Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2024 oedd £277,927, ac mae £66,950 o'r gronfa wrth gefn hon wedi'i ddyrannu yng nghyllideb 2024/25 i roi amcangyfrif o falans o £210,977 ar 31 Mawrth 2025.

5.16. Bydd balans y gronfa prosiectau o £152,300 yn cael ei ddefnyddio i ariannu costau prosiect Ynni Lleol Blaengar sydd wedi’u cynnwys o dan bennawd datblygu achosion busnes y prosiectau, gan adael balans o sero ar 31 Mawrth 2025.

5.17. Amcan balans y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025 yw £7,233,483, ac mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o £2.5m o log ar falansau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn.

**Cyfalaf**

5.18. Mae Atodiad 3 yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Rhagfyr 2024.

5.19. Mae gostyngiad net o £12.16m yn y gwariant disgwyliedig ar gyfer 2024/25 ac mae hyn oherwydd llithriad ar dri phrosiect (Ynni Lleol Blaengar, Porth Caergybi a chyn Ysbyty Gogledd Cymru) a phrosiect Gwaith Treuliad Anerobig Glannau Dyfrdwy wedi cael ei dynnu’n ôl. Mae'r gwariant ar brosiectau'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth wedi symud i 2024/25 i gyd-fynd â'r proffil cyfalaf yn yr achos busnes llawn a'r achos cyfiawnhau busnes.

5.20. Yn seiliedig ar y proffil gwariant diwygiedig hwn, mae Grant Bargen Twf Gogledd Cymru o £56.9m a dderbyniwyd eisoes yn ddigonol i ariannu'r rhaglen gyfalaf tan ddiwedd 2025/26. Rydym ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad gan y Llywodraeth ar y proffil ariannu grant diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill.

5.21. Mae disgwyl hefyd y bydd £84,684 o wariant cyfalaf yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol sy'n ymwneud ag offer arolwg rhwydwaith symudol. Bydd hyn yn cael ei ariannu gyda y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac felly nid yw yn Atodiad 3.

**6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

6.1. Cyflwynwyd atodiadau'r adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 24 Ionawr 2025.

**7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

7.1. Mae'r Pennaeth Gweithrediadau yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad Diwedd Rhagfyr 2024 |
| **Atodiad 2** | Sefyllfa cronfeydd y BUEGC |
| **Atodiad 3** | Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad Diwedd Rhagfyr 2024 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

Awdur yr adroddiad hwn.

Sefyllfa Ariannol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Rhagfyr 2024)

Atodiad 1

| Gwariant | Cyllideb Sylfaenol (£) | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Rhagfyr 2024 (£) | Ymrwymiadau Rhagfyr 2024 (£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,395,940 | 0 | 1,395,940 | 989,733 | 0 | 1,311,406 | (84,534) |
| Staff Ymgynghori | 0 | 0 | 0 | 3,600 | 0 | 37,434 | 37,434 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 3,000 | 0 | 3,000 | 2,185 | 1,059 | 3,244 | 244 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 11,000 | 0 | 11,000 | 2,903 | 0 | 4,355 | (6,645) |
| Hyfforddiant | 11,000 | 0 | 11,000 | 7,548 | 915 | 11,000 | 0 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 10,000 | 0 | 10,000 | 825 | 0 | 3,000 | (7,000) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 | 0 | 25,000 | 15,529 | 1,736 | 25,000 | 0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 11,000 | 0 | 11,000 | 16,449 | 375 | 20,000 | 9,000 |
| Eiddo | 36,000 | 0 | 36,000 | 0 | 0 | 36,000 | 0 |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 | 0 | 30,000 | 17,000 | 0 | 38,300 | 8,300 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,532,940** | **0** | **1,532,940** | **1,055,772** | **4,085** | **1,489,739** | **(43,201)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 110,860 | 0 | 110,860 | 0 | 0 | 90,000 | (20,860) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 29,690 | 0 | 29,690 | 0 | 0 | 29,100 | (590) |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 45,700 | 0 | 45,700 | 18,214 | 0 | 50,440 | 4,740 |
| Technoleg Gwybodaeth | 21,920 | 0 | 21,920 | 0 | 0 | 21,380 | (540) |
| Yswiriant | 4,130 | 0 | 4,130 | 0 | 0 | 4,130 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **212,300** | **0** | **212,300** | **18,214** | **0** | **195,050** | **(17,250)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 0 | 0 | 0 | (18,000) |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 0 | 10,000 | 1,545 | 0 | 8,500 | (1,500) |
| Ffi Archwilio Allanol | 27,520 | 0 | 27,520 | 0 | 0 | 27,520 | 0 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | (15,000) |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **70,520** | **0** | **70,520** | **1,545** | **0** | **36,020** | **(34,500)** |
| **Prosiectau** | | | | | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 200,000 | 0 | 200,000 | 21,874 | 1,503 | 286,112 | 86,112 |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 100,000 | 0 | 100,000 | 93,745 | 13,995 | 235,662 | 135,662 |
| Cefnogaeth Cyllidol Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 10,000 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 35,000 | 0 | 35,000 | 0 | 0 | 0 | (35,000) |
| Sicrwydd | 40,000 | 0 | 40,000 | 24,750 | 0 | 24,750 | (15,250) |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **375,000** | **0** | **375,000** | **140,369** | **15,498** | **556,524** | **181,524** |
| **Cynlluniau grant** | | | | | | | |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 99,420 | 0 | 99,420 | 107,288 | 0 | 140,881 | 41,461 |
| Cynlluniau Ynni Ardal Lleol | 0 | 0 | 0 | 30,803 | 9,405 | 30,803 | 30,803 |
| Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 122,640 | 0 | 122,640 | 120,149 | 0 | 159,917 | 37,277 |
| Cynlluniau Ffyniant Gyffredin | 550,500 | 0 | 550,500 | 295,948 | 63,930 | 458,747 | (91,753) |
| Ymchwil Statws Bwyd Amaeth | 0 | 0 | 0 | 5,783 | 0 | 5,783 | 5,783 |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **772,560** | **0** | **772,560** | **559,971** | **73,335** | **796,131** | **23,571** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,963,320** | **0** | **2,963,320** | **1,775,871** | **92,918** | **3,073,463** | **110,143** |

**Sefyllfa Ariannol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Rhagfyr 2024)**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth | Cyfanswm Cyllideb | Rhagfyr 2024 | Ymrwymiadau Rhagfyr 2024 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (57,880) | 0 | (57,880) | (57,880) | 0 | (57,880) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| Prifysgol Wrecsam | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| Coleg Cambria | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (28,950) | 0 | (28,950) | (28,950) | 0 | (28,950) | 0 |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| **Eraill** | | | | | | | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | (1,100,000) | 0 | (1,100,000) | 0 | 0 | (1,100,000) | 0 |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | (106,180) | 0 | (106,180) | (100,879) | 0 | (179,301) | (73,121) |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | (572) | 0 | (84,042) | (84,042) |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | (973,600) | 0 | (973,600) | (314,175) | 0 | (974,411) | (811) |
| Grant Llywodraeth Cymru - Lleoliad Myfyrwyr | (13,510) | 0 | (13,510) | (8,651) | 0 | (8,651) | 4,859 |
| Cyfraniadau Ymchwil Statws Bwyd Amaeth | 0 | 0 | 0 | (1,967) | 0 | (5,783) | (5,783) |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (4,350) | (4,350) |
| Cronfa Prosiectau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (152,300) | (152,300) |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (66,950) | 0 | (66,950) | 0 | 0 | (66,950) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,963,320)** | **0** | **(2,963,320)** | **(1,129,324)** | **0** | **(3,278,868)** | **(315,548)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** | **646,547** | **92,918** | **(205,405)** | **(205,405)** |

## Sefyllfa cronfeydd y BUEGC

Atodiad 2

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2024** | **(277,927)** |
| Dyraniad Cyllideb 2024/25 | 66,950 |
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025** | **(210,977)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2024** | **(152,300)** |
| Defnydd yn 2024/25 | 152,300 |
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2025** | **0** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2024** | **(4,733,483)** |
| Amcan llog ar falansau 2024/25 | (2,500,000) |
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025** | **(7,233,483)** |

**Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 - Adolygiad diwedd Rhagfyr 2024**

**Atodiad 3**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.81 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.98 | 3.27 | 3.27 | 0.94 | 0.41 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Digidol | Campws Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.80 | 5.10 | 9.80 | 4.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Digidol | Cysylltu ychydig ganrannau olaf | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.32 | 1.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 | 4.44 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 1.97 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 2.50 | 5.00 | 5.70 | 5.00 | 0.00 | 19.70 |
| Ynni carbon isel | H2 Newydd | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.00 | 2.30 | 2.30 | 3.10 | 1.53 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Blaengar | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 3.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Ynni carbon isel | Prosiect wedi'i dynnu'n ôl (Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy) | amh | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 3.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.40 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.90 | 1.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.49 | 11.49 | 11.49 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Warren Hall | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.38 | 7.39 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.47 | 3.47 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.93 | 1.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Gorllewinol, Wrecsam | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.48 | 4.48 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Tir ac eiddo | Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.40 | 3.40 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.79 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.71 | 0.25 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 6.52 | 4.28 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.57 | 2.85 | 0.01 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.30 | 3.70 | 0.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y BUEGC | | | 0.22 | 0.28 | 0.56 | 0.90 | 1.35 | 0.66 | 0.46 | 0.15 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Gwariant disgwyliedig erbyn 31/03** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **12.51** | **29.61** | **40.86** | **59.28** | **42.58** | **22.45** | **8.10** | **8.20** | **7.33** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Mawrth 2024)** | | | **0.34** | **1.94** | **1.05** | **24.67** | **58.68** | **68.53** | **44.81** | **19.71** | **1.65** | **2.60** | **5.10** | **5.80** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |
| **Gwahaniaeth** | | | **0.00** | **0.00** | **0.63** | **(12.16)** | **(29.07)** | **(27.67)** | **14.47** | **22.87** | **20.80** | **5.50** | **3.10** | **1.53** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**14 Chwefror, 2025**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Penodi SRO y Cynllun Twf ac Aelodau Arweiniol |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diwygiadau arfaethedig i strwythurau llywodraethu'r Cynllun Twf gan gynnwys penodi Uwch Berchennog Cyfrifol newydd (SRO) ar gyfer y Cynllun Twf.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn cytuno i'r egwyddor y dylid gwahanu rolau'r Uwch Berchennog Cyfrifol a Chyfarwyddwr Portffolio (yn amodol ar gyngor Adnoddau Dynol) a'u cyflawni gan wahanol unigolion a nodi'r rhaniad arfaethedig o ddyletswyddau a chyfrifoldebau fel y nodir yn Atodiad 1.

2.2. Bod y Bwrdd yn gofyn am enwebiad gan un o chwe Phrif Weithredwr yr awdurdodau lleol i weithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda'r bwriad o gadarnhau'r penodiad hwn yn y cyfarfod nesaf.

2.3. Bod y Bwrdd yn cytuno ar y newidiadau i gyfrifoldebau Aelodau Arweiniol ar draws y Cynllun Twf fel y nodir yn mhwynt 6.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd i wahanu rôl yr SRO a Chyfarwyddwr Portffolio mewn ymateb i'r gofyniad newydd gan y llywodraeth.

## 4. CEFNDIR

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni buddsoddiad trawsffurfiol o £1biliwn i economi Gogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hirdymor i gyflawni twf cynhwysol.

4.2. Yn unol â chytundeb terfynol y Cynllun Twf, mae strwythur llywodraethu rheoli portffolio, rhaglenni a phrosiectau wedi'i sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf. Mae hyn yn cynnwys cael Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer y Cynllun Twf ac Aelodau Arweiniol ar draws y rhaglenni.

4.3. Yn y pen draw, mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl trosglwyddo) yn atebol am gyflawni amcanion Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gyflawni'r canlyniadau a ragwelir a gwireddu'r buddion gofynnol. Mae'r SRO yn atebol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd am gyflawni'r cwmpas ac amcanion y portffolio y cytunwyd arnynt.

## 5. UWCH BERCHENNOG CYFRIFOL

5.1. Mae rôl SRO wedi'i chyflawni gan Alwen Williams ers dechrau'r Cynllun Twf ochr yn ochr â'i chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Portffolio. Mae gofynion newydd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel cyllidwyr y Cynllun Twf bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r rolau hyn gael eu gwahanu a'u cyflawni gan wahanol unigolion i gynyddu atebolrwydd a darparu capasiti arweinyddiaeth ychwanegol.

5.2. Y cynnig yw penodi un o'r chwe Phrif Weithredwr awdurdodau lleol i weithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Ystyrir y cynnig hwn yn estyniad naturiol i rôl y Prif Weithredwr Arweiniol anffurfiol presennol y mae Dylan Williams, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn ymgymryd â hi i gefnogi'r Cyfarwyddwr Portffolio.

5.3. Mae'r SRO a'r Cyfarwyddwr Portffolio yn atebol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd am gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda'r rhaniad atebolrwydd penodol a nodir yn Atodiad 1. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhai cyfrifoldebau sy'n aros gyda Phrif Weithredwr yr awdurdod lletya (neu'r CBC ar ôl trosglwyddo'r Cynllun Twf) gan mai cyfrifoldebau statudol y Prif Weithredwr yw'r rhain.

5.4. Nodir llythyr penodi drafft ar gyfer yr SRO yn Atodiad 2.

## 6. ROLAU ARWEINIOL

6.1. Ers sefydlu'r Cynllun Twf, mae pump o arweinyddion y Cyngor wedi ymgymryd â rolau arweiniol ar gyfer pob un o feysydd rhaglenni'r Cynllun Twf i ddarparu cysylltiad rhwng y Bwrdd a'r Byrddau Rhaglenni. Roedd y chweched Arweinydd yn eistedd ar yr is-bwyllgor Trafnidiaeth.

6.2. Gyda sefydlu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol o fewn y CBC nid oes gofyniad mwyach ar gyfer y rôl hon o fewn y Bwrdd Uchelgais, gan roi cyfle i adolygu'r trefniant hwn.

6.3. Y cynnig diwygiedig yw nad yw Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd bellach yn ymgymryd â Rôl Arweiniol i ganiatáu i'r Cadeirydd ganolbwyntio ar faterion strategol a chyflawni'r Cynllun Twf yn gyffredinol gyda'r Rolau Arweiniol wedi'u rhannu rhwng y pum Arweinydd arall. Mae'r dyraniad arfaethedig wedi'i nodi isod ac mae'n cynrychioli cymysgedd o benodiadau newydd a threfniadau sy'n parhau:

| Rhaglen | Aelod Arweiniol |
|---|---|
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Y Cynghorydd Charlie McCoubrey |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Y Cynghorydd Dave Hughes |
| Tir ac Eiddo | Y Cynghorydd Jason McLellan |
| Ynni Carbon Isel | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Digidol | Y Cynghorydd Nia Jeffreys |

**7. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r papur hwn.

**8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

8.1. Mae'r cynnig yn ymateb i ofyniad clir gan y llywodraeth i gael SRO a Chyfarwyddwr Portffolio ar wahân. Mae rôl yr SRO wedi'i hen sefydlu fel arfer gorau ac mae'n rhan allweddol o ofyniad llywodraethu'r Cynllun Twf. Mae gwahanu'r rolau yn caniatáu mwy o atebolrwydd, gwytnwch a chefnogaeth i gyflawni'r Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cyfrifoldebau SRO – Cyfarwyddwr Portffolio – Prif Weithredwr |
| **Atodiad 2** | Llythyr penodi drafft ar gyfer yr SRO |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

“Mae hwn yn benderfyniad cychwynnol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ddod i benderfyniad ar wahanu'r rolau Mae'r adroddiad yn darparu model clir ar gyfer gwahanu rôl yr SRO oddi wrth y Cyfarwyddwr Portffolio a nodir natur y dyletswyddau a'r atebolrwydd priodol yn yr atodiad. Mae digon o wybodaeth yn yr adroddiad i'r Bwrdd ddod i farn a phenderfyniad mewn perthynas â'r Cynllun Twf. Mater i'r CBC yw rôl Prif Weithredwr y CBC i'w sefydlu ond mae'r cynnig hwn yn rhoi syniad clir ac arweiniad o sut y byddai'r rôl hon yn rhan o gyflawni'r Cynllun Twf ar ôl trosglwyddo.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

“Mae cyllideb y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a fabwysiadwyd ar 17 Ionawr, a’r gyllideb ar gyfer y Cynllun Twf sy’n ymddangos fel eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma, yn adlewyrchu’r strwythur sy’n ofynnol gan y llywodraethau; mae cynnwys yr adroddiad yma yn rhoi mwy o fanylion ar y gwahanol rolau. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.”

## Atodiad 1- Cynllun Twf Gogledd Cymru – Uwch Gyfrifoldeb Arweinyddiaeth

### Cynllun Twf: Trefniadau presennol a newid arfaethedig

Mae Cyfarwyddwr Portffolio'r Cynllun Twf yn ymgymryd â rôl yr SRO ar gyfer y Cynllun Twf. Mae'r llywodraethau wedi gofyn i'r rolau gael eu gwahanu yn unol â Chynlluniau Twf eraill. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu sut mae Llywodraeth Cymru yn neilltuo SROs i brosiectau mawr ac wedi'i gynllunio i sicrhau bod digon o her a chefnogaeth i uwch reolwyr y tîm sy'n arwain ac yn cyflawni'r Cynllun Twf. Mae'n wahanol i'r dull a amlinellir yng nghanllawiau'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (IPA) lle mae'r SRO wedi'i neilltuo i'r rôl. (Mae Atodiad 1 yn nodi'r gymhariaeth rhwng rolau SRO a PD fel y'u diffinnir gan yr IPA)

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rhaniad cyfrifoldebau ac atebolrwydd rhwng tair swydd uwch arweinyddiaeth a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r Cynllun Twf yn effeithiol o fewn strwythur newydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer Gogledd Cymru ac, yn ymarferol, bydd y tair rôl yn cydweithio'n agos i sicrhau bod gan y Cynllun Twf fecanweithiau arweinyddiaeth, her a chymorth effeithiol a'i fod yn gallu cyflawni'r buddion a nodir yn Achos Busnes Portffolio y rhanbarth.

**Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO)** - Mae'r SRO yn atebol am gyflawni cwmpas ac amcanion y portffolio fel y cytunwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd gan gynnwys unrhyw newidiadau a allai effeithio ar hyn, blaenoriaethu a dethol prosiectau ac yn y pen draw cau prosiectau. Bydd yr SRO yn darparu arweiniad a chefnogaeth i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn perthynas ag unrhyw risgiau, materion neu heriau a allai effeithio ar allu'r Cynllun Twf i gyflawni ei amcanion.

**Y Cyfarwyddwr Portffolio**- Y Cyfarwyddwr Portffolio sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cynllun Twf ac yn atebol am nifer o swyddogaethau cyflawni cysylltiedig gan gynnwys perfformiad a rheoli risg, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwireddu buddion. Bydd y Cyfarwyddwr Portffolio yn gweithio'n agos gyda'r SRO a Phrif Weithredwr y CBC ar y meysydd hynny lle maent yn atebol yn y pen draw.

**Prif Weithredwr y CBC**- Prif Weithredwr y CBC sy'n atebol am weithrediad y CBC a'i holl swyddogaethau a fydd yn cynnwys y Cynllun Twf a'r adnoddau cyflawni cysylltiedig. Felly, bydd y Prif Weithredwr yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a bod yn rheolwr llinell y Cyfarwyddwr Portffolio a bydd yn atebol yn y pen draw am gyllideb, adnoddau a chydymffurfiaeth, yn ogystal â diwylliant a gwerthoedd y sefydliad.

Mae'r tabl RACI ar y dudalen nesaf yn nodi rhaniad cyfrifoldebau ar draws nifer o swyddogaethau allweddol.

Tabl RACI – Penodol i'r Cynllun Twf

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhaniad cyfrifoldeb rhwng y rolau, yn enwedig gan ddangos pwy sy'n atebol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd am wahanol agweddau ar gyflawni:

| Gweithgareddau/Tasgau | Cyfarwyddwr Portffolio (PD) | Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) | Awdurdod Lletya / Prif Weithredwr y CBC |
|---|---|---|---|
| Cwmpas ac Amcanion y Portffolio | R (Responsible) | A (Accountable) | I (Informed) |
| Dyrannu Cyllideb ac Adnoddau | R | C (Consulted) | A |
| Rheoli Risg | A | R | A |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu, | A | C | C |
| Diwylliant a Gwerthoedd | R | C | A |
| Monitro Perfformiad Cyffredinol y Portffolio | A | C | C |
| Blaenoriaethu a Dethol Prosiectau | R | A | C |
| Goruchwylio Newid Rheolaeth | R | A | C |
| Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau | R | C | A |
| Gwireddu Buddion | A | C | I |
| Cau Portffolio ac Adolygiad Ôl-weithredu | R | A | I |

**Allwedd RACI:**

**R (Responsible):** Mae'n gwneud y gwaith i gwblhau'r dasg.
**A (Accountable):** Yn y pen draw, mae'n atebol am gwblhau'r dasg yn gywir ac yn drylwyr, a'r un sy'n dirprwyo'r gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol.
**C (Consulted):** Angen rhoi mewnbwn cyn y gellir gwneud y gwaith a'i gymeradwyo.
**I (Informed):** Mae angen cael ei ddiweddaru ar gynnydd neu benderfyniadau, ond nid oes angen unrhyw fewnbwn.

Pwrpas rolau'r SRO a'r Cyfarwyddwr Portffolio

| **Pwrpas y rôl** | | |
|---|---|---|
| | **Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO)** | **Y Cyfarwyddwr Portffolio** |
| **Pwrpas y rôl** | Mae'r uwch berchennog cyfrifol yn atebol am sicrhau bod portffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cyflawni ei amcanion, ac yn cyflawni'r canlyniadau a'r buddion gofynnol. Mae'r SRO yn atebol i Fwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Chynlluniau Twf Cymru. Mae'r uwch berchennog cyfrifol yn llywio ac yn hyrwyddo'r prosiect. | Mae'r cyfarwyddwr portffolio yn cyfarwyddo'r portffolio o brosiectau ac mae'n atebol i'r uwch berchennog cyfrifol am sefydlu'r fframwaith llywodraethu ac am reoli rhaglenni/prosiectau o ddydd i ddydd i gyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau a ddymunir a gwireddu'r buddion gofynnol. Maent yn gyfrifol am yrru'r gwaith o gyflawni'r prosiect a'i oruchwylio i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu diffinio a'u cyflawni'n glir o fewn yr amser, y gost a'r cyfyngiadau ansawdd a gytunwyd. |
| **Proffil nodweddiadol** | Mae'n berchen ar ddyluniad cyffredinol y prosiect a sefydliad y PMO. | Yn sefydlu sefydliad y PMO yn unol â'r cytunedig |
| **Atebolrwydd** | | |
| **Arweinyddiaeth** | Mae'n darparu arweiniad, penderfyniadau, her a chyfeiriad cyffredinol. | Arwain a rheoli'r tîm sy'n arwain y rhaglenni a'r prosiectau o ddydd i ddydd. |
| **Dyluniad** | Mae'n berchen ar ddyluniad cyffredinol y prosiect a'r sefydliad dros dro sydd ei angen i'w gyflawni. | Yn sefydlu'r PMO yn unol â'r dyluniad sefydliadol y cytunwyd arno ac o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. |
| **Cyflawni** | Cyflawni amcanion y prosiect a'r canlyniadau a ragwelir, a gwireddu'r buddion a nodir yn yr achos busnes. | Creu ac arwain y rhaglenni a'r prosiectau i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt o fewn cyfyngiadau amser, cost ac ansawdd. |
| **Rheolaeth Prosiect** | Mae'n darparu arweiniad strategol i gyfarwyddwr y prosiect ac yn gosod paramedrau cyflawni strategol allweddol. | Darparu rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol. Pennu rheolaethau rhaglenni a phrosiectau a phwyntiau penderfynu allweddol sy'n ofynnol i sicrhau cyflawniad. Dylunio strwythur |

| | | |
|---|---|---|
| | | y PMO a'r sefydliad sy'n briodol i'r cam Cynllun Twf. Gosod methodolegau cyflawni priodol. Rheoli pontio effeithiol rhwng camau. |
| **Achos Busnes** | Yn berchen ar yr achos busnes portffolio, yn sicrhau, ac yn rhoi sicrwydd am hyfywedd parhaus. Rhaid cyfeirio unrhyw bryderon sylweddol am hyfywedd, gwerth am arian, rheoleidd-dra neu briodoldeb i'r swyddog cyfrifyddu perthnasol. | Datblygu'r achos busnes ac yn cefnogi'r SRO i gyflawni amcanion yr achos busnes. |
| **Cyllideb** | Sicrhau cyllideb yn erbyn yr achos busnes drwy gydol oes y prosiect | Datblygu'r gyllideb a'r ddarpariaeth o fewn y gyllideb |
| **Adnoddau** | Yn penodi'r cyfarwyddwr portffolio, yn cytuno ar gyfrifoldebau ac awdurdod y rôl, ac yn sicrhau adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni'r prosiect. | Yn nodi gofynion sgiliau ar gyfer pob cam o'r Cynllun Twf. Yn recriwtio adnoddau o fewn cyfyngiadau cyllidebol ac yn eu defnyddio'n effeithiol. Adeiladu tîm y PMO; dirprwyo rolau a chyfrifoldebau cynrychiolwyr, yn datblygu gallu ac yn meithrin arloesedd |
| **Gwireddu buddion** | Yn goruchwylio ac yn ysgogi gwireddu buddion, gan gynnwys sicrhau perchnogaeth buddion ar ôl cwblhau'r cyflawni. | Trosi buddion cytunedig achosion busnes yn ganlyniadau'r prosiect ac yn rheoli cyflawni'r canlyniadau hynny. |
| **Rheoli Rhanddeiliaid** | Yn dylanwadu ac yn rheoli'r amgylchedd lle bydd canlyniadau'r Cynllun Twf yn cael eu cyflawni, gan gynnwys perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol, perchnogion busnes a phartïon yr effeithir arnynt. | Sicrhau bod buddion rhanddeiliaid yn cael eu hadnabod a'u trin. Rheoli cyfathrebu â rhanddeiliaid ac yn sicrhau prynu. Ffurfio cydberthnasau cydweithredol â rhanddeiliaid allweddol yn fewnol ac yn allanol. Gweithio ar y cyd â'r uwch berchennog cyfrifol i reoli uwch randdeiliaid ar y cyd |
| **Risgiau a Materion** | Rheoli risgiau strategol yn yr amgylchedd gweithredu. | Rheoli risgiau a materion ac yn eu hesgoli i'r uwch berchennog cyfrifol lle bo hynny'n briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Llywodraethu** | Sicrhau bod llywodraethu prosiectau priodol ar waith ac yn cadeirio'r bwrdd prosiect. | Darparu'r holl adroddiadau fel sy'n ofynnol gan yr uwch berchennog cyfrifol. Sefydlu a rheoli sicrhau ansawdd a rheoli newid |
| **Sicrwydd** | Sicrhau sicrwydd priodol ac yn cytuno ar lefel ac amlder adolygiadau sicrwydd. | Yn ymwneud â gweithgareddau sicrwydd ac adolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion. |
| **Arweiniad a chefnogaeth** | Ar gael i'r cyfarwyddwr portffolio i hyfforddi, cynghori, darparu cyfeiriad strategol, cynorthwyo gyda datrys gwrthdaro a gwneud penderfyniadau amserol. | Yn darparu cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant i dîm y PMO. Hyrwyddo perfformiad effeithiol unigol a grŵp. |
| **Cynllunio a Rheoli** | Yn cytuno ac yn berchen ar feini prawf gweledigaeth a llwyddiant y portffolio gyda'r cyfarwyddwr portffolio. Sicrhau bod cyfeiriad strategol y prosiect yn parhau i fod yn cyd-fynd ag unrhyw newidiadau mewn blaenoriaethau gwleidyddol neu fusnes | Datblygu a chytuno ar y weledigaeth a'r meini prawf llwyddiant mesuradwy gyda'r uwch berchennog cyfrifol. Datblygu a chynnal cynllun y prosiect ac integreiddio â phrosiectau rhyngddibynnol eraill. Monitro a rheoli cynnydd a pherfformiad y prosiect ac adroddiadau yn rheolaidd i'r Uwch berchennog cyfrifol. Sicrhau bod safonau priodol, arfer da a gwersi a ddysgwyd yn cael eu ceisio a'u cymhwyso. Sicrhau bod y cynnyrch / nwyddau y gellir eu trosglwyddo yn cael eu diffinio'n dda ac wedi'u cytuno â rhanddeiliaid. Sicrhau bod rheoli newid effeithiol ar waith i gytuno a dogfennu newidiadau i gwmpas y prosiect a'u cyflawni fel y cytunwyd gyda'r uwch berchennog cyfrifol a rhanddeiliaid eraill. Rheoli cau prosiectau a chymeradwyo. |

Atodiad 2 – Llythyr Penodi SRO Drafft

**Penodiad fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru**

Mae Uchelgais Gogledd Cymru am benodi Uwch Berchennog Cyfrifol rhanbarthol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd y rôl, ochr yn ochr â rôl bresennol y Cyfarwyddwr Portffolio, yn atebol yn uniongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl trosglwyddo) am gyflawni'r Cynllun Twf gydag atebolrwydd penodol ynghylch cwmpas ac amcanion portffolio, blaenoriaethu a dethol prosiectau, rheoli newid a chau ac adolygu'r portffolio. Bydd y swydd hon yn ychwanegol at rôl a chyfrifoldebau sylweddol deiliad y swydd ac felly bydd angen amser penodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Mae deiliadaeth y swydd yn parhau o'r penodiad gydag adolygiad cyfnodol gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd (neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl trosglwyddo).

Yn y pen draw, mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl trosglwyddo) yn atebol am gyflawni amcanion Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gyflawni'r canlyniadau a ragwelir a gwireddu'r buddion gofynnol. Bydd yr SRO yn gweithio gyda'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Portffolio i sicrhau bod trefniadau, llywodraethu a sicrwydd ar waith i fodloni'r rhwymedigaethau hyn. Wrth wneud hynny, bydd yr SRO yn sicrhau bod penderfyniadau a chyfathrebiadau allweddol yn briodol ac yn amserol gyda'r holl randdeiliaid rhanbarthol a swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r DU.

Mae'n ofynnol i'r SRO lenwi ffurflen Asesiad Potensial Risg blynyddol a'i chyflwyno i Ganolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru ac arwain y broses adolygu sicrwydd flynyddol ar y portffolio ac i sicrhau bod y Cyfarwyddwr Portffolio yn gweithredu ar unrhyw argymhellion dilynol.

Mae'r SRO hefyd yn gyfrifol am reoli newid Cynllun Twf Gogledd Cymru. Rhaid i'r Bwrdd awdurdodi newidiadau arfaethedig i'r cwmpas a allai effeithio ar weledigaeth, amcanion neu wireddu buddion y portffolio oni bai eu bod wedi'u dirprwyo o dan y Strategaeth Rheoli Newid bresennol a gall newidiadau ar lefel portffolio fod yn amodol ar lefelau pellach o gymeradwyaeth yn Llywodraeth Cymru a'r DU. Byddai'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn cynnwys y potensial i argymell, mewn modd amserol, i'r Bwrdd, yr angen i naill ai oedi neu derfynu'r Rhaglen neu brosiectau penodol lle bo angen.

Nodir cyfrifoldebau'r rôl a'r rhaniad rhwng yr SRO, y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Prif Weithredwr yn Atodiad 1.

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**14 Chwefror 2025**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2025/26 |
| **AWDUR:** | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2025/26 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC).

**2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw 2025/26 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.

2.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol a chyfraniadau llog partneriaid.

2.3. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.

2.4. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo trosglwyddo'r llog a dderbyniwyd ar falansau grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn 2024/25 a 2025/26 i gronfa wrth gefn benodol i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth, cadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol yn ogystal â chostau datblygu prosiectau.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

3.2. Mae Atodiad 1 yn gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

3.3. Mae Atodiad 2 yn gosod y gyllideb gyfalaf arfaethedig fesul prosiect a'r cyllid cyfalaf cyfatebol ar gyfer y Cynllun Twf o £240m.

3.4. Mae Atodiad 3 yn rhoi crynodeb o gyllideb 2025/26 yn erbyn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27 a 2027/28.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Bu oedi cyn trosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf i bŵer lles economaidd Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) a'r dyddiad trosglwyddo tebygol bellach yw 1 Ebrill 2025. Felly, rhaid sefydlu cyllideb ar wahân ar gyfer swyddogaethau presennol y Bwrdd.

4.2. Dangosir y gyllideb refeniw fanwl arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 1 a dangosir y gyllideb gyfalaf arfaethedig yn Atodiad 2.

4.3. Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys swyddi ychwanegol yn unol â gofynion Llywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr Portffolio wedi gofyn i'r swyddi gael eu hariannu gan y llog a dderbyniwyd ar falansau Grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn 2024/25 a 2025/26. Yn ogystal, gan fod Bargen Twf Gogledd Cymru yn mynd i mewn i'w chyfnod cyflawni allweddol, mae'r Cyfarwyddwr Portffolio wedi gofyn am ymestyn tan fis Mawrth 2028 gytundebau'r gweithwyr sydd ar gytundeb cyfnod penodol, ac i'r costau hyn yn ogystal a chostau datblygu prosiectau gael eu hariannu o log y Bargen Twf.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

**Cyllideb Refeniw**

5.1. Swyddfa Rheoli Portffolio - £1,924,770

Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn seiliedig ar 22.75 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac mae dwy o'r rhain yn swyddi ychwanegol sy'n benodol i'r prosiectau Digidol ac Ynni Lleol Blaengar. Mae'r pennawd swyddi llywodraeth ychwanegol yn cynnwys cyllideb ar gyfer dau gyfarwyddwr anweithredol a gweithiwr proffesiynol rheoli portffolio ychwanegol. Mae cyllideb y Swyddfa Rheoli Portffolio hefyd yn cynnwys hysbysebu ac asesu ymgeiswyr; teithio a chynhaliaeth; hyfforddiant; ymgysylltu a chyfarfodydd; cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus; cyflenwadau a gwasanaethau; eiddo; datblygu'r portffolio a'r rhaglenni; yswiriant a systemau.

5.2. Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol - £263,530

Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, a chynyddwyd y gyllideb ar gyfer 2025/26 i adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen wrth symud ymlaen ac mae'n cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (gan gynnwys Swyddog Adran 151), Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro), Cefnogaeth Gorfforaethol (Cyfieithu, Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd a Diogelwch) a Thechnoleg Gwybodaeth. Bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd yn cael ei sefydlu ar gyfer y gwasanaethau hyn a bydd yn cynnwys mwy o fanylion am yr adnoddau a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau cefnogol corfforaethol a statudol hyn.

Cyd-bwyllgor

5.3. Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £18,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas â materion llywodraethu a pholisi.

5.4. Ffioedd Cyllidol Allanol - £10,000

Bydd y gyllideb hon yn ymdrin yn bennaf â'r mewnbwn gan ymgynghorwyr allanol trysorlys a phensiynau.

5.5. Ffi Archwilio Allanol - £28,350

Bydd y ffi hon yn cynnwys archwiliad o ddatganiad cyfrifon blynyddol llawn ynghyd ag Archwiliad Perfformiad, a bydd y rhain yn cael eu cynnal gan Archwilio Cymru fel yr Archwilydd Allanol.

5.6. Bwrdd Cyflawni Busnes - £15,000

Bydd y gyllideb yma yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Prosiectau

5.7. Mae ffigyrau'r gyllideb yn seiliedig ar y wybodaeth diweddaraf sydd ar gael, a bydd angen iddynt gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r rhaglen gyfalaf ddatblygu.

5.8. Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau - £150,000

Mae pob un o'r prosiectau unigol angen Achos Busnes wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gyfrifol am ariannu'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais, a bydd hyn yn cynnwys gwaith arbenigol helaeth gan gwmnïau allanol.

5.9. Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £150,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas ag achosion busnes y prosiectau.

5.10. Cefnogaeth Gyllidol Allanol - £50,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyllidol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas ag achosion busnes y prosiectau.

5.11. Cefnogaeth Caffael Allanol - £50,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth caffael allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiectau.

5.12. Sicrwydd - £50,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer Adolygiadau Porth y Llywodraeth ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.

5.13. Llog - £108,380

Bydd y cyfraniadau llog a dderbynnir gan bartneriaid yn cael eu rhoi i un ochr i ariannu'r gost gyfartalog o fenthyca sy'n gysylltiedig ag ariannu'r gyllideb gyfalaf dros oes y cynllun twf.

Cyfraniadau Ariannu

5.14. Cyfraniadau Partneriaid - (£469,900)

Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 (GA2), mae Cyllideb 2025/26 yn cynnwys cyfraniad o £58,730 gan y chwe awdurdod lleol a £29,380 gan y pedwar ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £469,900. Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi cynyddu 1.5% i adlewyrchu chwyddiant alldro 2024/25, y chwyddiant cyflog arfaethedig ar gyfer 2025/26, yn ogystal â lwfans ar gyfer y newidiadau yng nghanran a throthwy yswiriant gwladol yn unol â chymal 15.4.3 o'r GA2.

5.15. Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol - (£240,000)

Cymeradwywyd y Cyfraniadau Atodol fel rhan o GA2 ac maent yn daliad blynyddol parhaus a ddarperir gan bob Cyngor i ariannu'n rhannol gyllideb flynyddol y BUEGC. Mae'r gyllideb yn cynnwys £40,000 gan y chwe awdurdod lleol i roi cyfanswm cyfraniad o £240,000.

5.16. Cyfraniadau Llog y Partneriaid - (£108,380)

Yn 2020, comisiynwyd Arlingclose (cwmni ymgynghorol trysorlys annibynnol) i fodelu cost benthyca a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sydd eu hangen i dalu'r gost hon, a chynhwyswyd cyfraniadau yng nghyllideb 2021/22 ymlaen. Fel mesur un tro yn 2024/25, nid oedd yn ofynnol i bartneriaid dalu cyfraniadau tuag at y costau benthyca. Er bod llawer o'r

newidynnau a all effeithio ar y costau hyn yn parhau i fod yn ansicr, mae'r cyfraniadau diwygiedig ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar y wybodaeth diweddaraf sydd ar gael a bydd lefel y cyfraniadau sy'n ofynnol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn cael eu hadolygu eto wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael yn ystod y flwyddyn. Mae dyraniad grant cyfalaf Prifysgol Bangor wedi lleihau dros y blynyddoedd ac mae'r cyfraniadau a dderbyniwyd yn ddigonol ar hyn o bryd felly nid oes angen cyfraniadau ganddynt ar gyfer 2025/26.

5.17. Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru - (£1,350,000)

Er bod grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae 2.15% - sydd gyfwerth â £5.15m o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru – wedi'i glustnodi i ariannu gwariant refeniw y Bwrdd Uchelgais, gyda £1.35m wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2025/26. Gellir cyflawni'r hyblygrwydd hwn yn yr un ffordd ag y mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i reoli cyllid eu rhaglenni cyfalaf eu hunain.

5.18. Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (Staff Prosiectau) - (£116,675)

Dyma frigdoriad o ddyraniad prosiectau Digidol ac Ynni Lleol Blaengar o grant Bargen Twf Gogledd Cymru i ariannu'r ddwy swydd ychwanegol sy'n benodol i'r prosiectau hyn.

5.19. Cyfalafu Costau Cyflog - (£60,000)

Cyfalafu costau staff mewn perthynas â'r prosiectau Digidol ac Ynni Lleol Blaengar.

5.20. Cronfa Llog - (£412,085)

Cyfraniad o'r gronfa llog i ariannu swyddi ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau.

5.21. Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi - (£66,950)

Amcangyfrifir bod £210,977 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar 31 Mawrth 2025, ac ar ôl defnyddio £60,990 i ariannu cyllideb 2025/26, bydd £149,987 ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

**Cyllideb Gyfalaf**

5.22. Mae'r gyllideb gyfalaf yn seiliedig ar broffil gwariant wedi'i addasu yn ôl risg ar gyfer pob prosiect yn y Fargen dros y cyfnod 2021/22 hyd at 2034/35, ynghyd â'r brigdorri 2.15% i ariannu'r gyllideb refeniw dros yr un cyfnod. Mae'n seiliedig ar amserlen ddiweddaraf y prosiectau, a chaiff ei hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo.

5.23. Mae prosiect Gwaith Treuliad Anerobig Glannau Dyfrdwy wedi'i dynnu'n ôl o'r Fargen Twf felly mae'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiect wedi'i broffilio i 2029/30 a 2030/31.

5.24. Er bydd y gwariant o £240m yn cael ei ariannu o'r Fargen Twf, bydd amseriad derbyn y grant yn golygu y bydd angen benthyca yn y tymor byr. Bydd y gost o fenthyca yn cael ei ariannu gan bartneriaid ac arianwyr prosiectau, ac mae partneriaid eisoes wedi bod yn cyfrannu swm blynyddol tuag at y costau hyn sydd wedi'i neilltuo mewn cronfa wrth gefn benodol. Derbyniwyd hefyd log sylweddol ar falansau, ac mae'r £3.6m o'r llog a dderbyniwyd hyd at 31 Mawrth 2023 wedi'i drosglwyddo i'r un gronfa.

5.25. Rydym yn aros am gadarnhad gan y ddwy Lywodraeth o broffil ariannu diwygiedig grant Bargen Twf Gogledd Cymru.

5.26. Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir mesurau rheoli yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i arianwyr y prosiectau ymdrin ag ef mewn perthynas a'u prosiectau nhw.

**Adnoddau Swyddfa Rheoli Portffolio**

5.27. Mae'r rhan fwyaf o staff y Swyddfa Rheoli Portffolio (ac eithrio 7 swydd barhaol) yn cael eu cyflogi ar gytundebau cyfnod penodol tan fis Mawrth 2026, ac er mwyn lliniaru'r risg o staff yn gadael pan fydd Bargen Twf Gogledd Cymru yn mynd i'w chyfnod cyflawni allweddol, mae'r Cyfarwyddwr Portffolio wedi gofyn i'w contractau gael eu hymestyn tan fis Mawrth 2028. Ni fydd hyn yn berthnasol i'r aelodau staff hynny sy'n cael eu hariannu gan grantiau penodol gan fod eu cyfnodau cytundeb yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chyfnod y grant.

5.28. Cynigir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio y bydd y swyddi llywodraeth ychwanegol, cadw'r adnoddau'r Swyddfa Rheoli Portffolio presennol am 2 flynedd ychwanegol y tu hwnt i Mawrth 2026, yn ogystal â rhai o gostau datblygu'r prosiectau yn cael eu hariannu gan y llog a dderbyniwyd ar balansau'r Fargen Twf yn 2024/25 a 2025/26. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost dros y cyfnod o dair blynedd yn £2.7m.

5.29. Mae’r llog ar falansau’r Fargen Twf wedi ei amcangyfrif i fod yn £2.5m yn 2024/25 a £1.25m yn 2025/26 ac felly byddai’n ddigonol i ariannu’r ofynion ychwanegol y gyllideb dros y cyfnod o 3 blynedd.

5.30. Bydd y llog o £3.6m a dderbyniwyd hyd at 2023/24 yn parhau yn y gronfa llog a bydd yn cael ei ddefnyddio i osod yn erbyn unrhyw gostau benthyca yn y dyfodol.

**6. Y CYD-DESTUN LLYWODRAETHOL**

6.1. Mae angen i'r corff atebol baratoi'r Gyllideb Flynyddol ac mae angen i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais gytuno iddi.

6.2. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025/26 wedi'i pharatoi ar sail y rolau, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod hyd yma, gyda'r disgwyl i lefel yr adnoddau a glustnodir gael ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei diweddaru wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

6.3. Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i staff y Swyddfa Rheoli Portffolio. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Awst 2025 a Rhagfyr 2025 a'i gyflwyno i'r Bwrdd Portffolio a’r Bwrdd Uchelgais Economaidd, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chamau priodol eu cymryd.

**7. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

7.1. Cyflwynwyd Atodiadau 1,2 a 3 a’r wybodaeth o fewn yr adroddiad hwn i’r Bwrdd Portffolio ar 24 Ionawr 2025.

**8. ASESIAD ARDRAWIAD**

8.1. Mae’r Bwrdd Uchelgais yn ddarostyngedig i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

8.2. Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i’r Bwrdd Uchelgais dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod gosod cyllideb yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae’r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi

ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod pob prosiect yn destun achos busnes manwl iawn yn unol â'r canllawiau ‘Achos Busnes Gwell’ a ddatblygwyd gan Thrysorlys EF a Llywodraeth Cymru, ni ystyrir bod unrhyw effeithiau penodol yn deillio o'r penderfyniadau a gyflwynir.

8.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni saith o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu a sy’n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae’r argymhellion yn gydnaws â’r dyletswyddau yma.

**9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

9.1. Mae’r Pennaeth Gweithrediadau yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at y gyllideb.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cyllideb Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer 2025/26. |
| **Atodiad 2** | Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2025/26. |
| **Atodiad 3** | Cyllideb Refeniw 2025/26 a Chyllideb Refeniw Drafft 2026/27 a 2027/28. |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Daw’r adroddiad yma ymlaen ar drothwy trosglwyddo y Cynllun Twf i’r Cyd Bwyllgor Corfforedig. Mae’r adroddiad hefyd yn amlygu gofynion refeniw ychwanegol sydd yn deillio o ofynion llywodraeth Cymru. Yn ôl gofynion Cytundeb GA2 mae gan y Cyd Bwyllgor hawl gwariant o fewn ffiniau y gytundeb yma. Ar y trosglwyddiad bydd y gyllideb yma yn trosglwyddo i’r CBC ac yn cael ei gwarchod ar gyfer y Cynllun Twf. I’r dyfodol cyfrifoldeb y CBC fyddai sicrhau adnoddau ychwanegol pe cyfyd angen pellach neu ychwanegol am hynny. Gan fod yr hyn sydd yn cael ei argymell o fewn adnoddau sydd ar gael i’r Bwrdd mae’n cyd fynd a cytundeb GA2.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

Awdur yr adroddiad hwn.

## Cyllideb Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2025/26.

**Atodiad 1**

| **Gwariant** | **(£)** |
|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,558,280 |
| Swyddi Llywodraeth Ychwanegol | 206,320 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 2,500 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 |
| Hyfforddiant | 18,000 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 10,000 |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 15,000 |
| Eiddo | 36,000 |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 |
| Yswiriant | 4,130 |
| Systemau | 9,540 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,924,770** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 113,330 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 44,980 |
| Cefnogaeth Democratiaeth | 28,430 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 48,350 |
| Technoleg Gwybodaeth | 28,440 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **263,530** |
| **Cyd-Bwyllgor** | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 |
| Ffi Archwilio Allanol | 28,350 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 15,000 |
| **Cyfanswm Cyd-Bwyllgor** | **71,350** |
| **Prosiectau** | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 150,000 |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 150,000 |
| Cefnogaeth Gyllidol Allanol | 50,000 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 50,000 |
| Sicrwydd | 50,000 |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **450,000** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | |
| Cyfraniadau llog y Partneriaid | 108,380 |
| **Cyfanswm Trosglwyddiadau i gronfeydd** | **108,380** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,818,030** |

**Cyllideb Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2025/26.**

| **Incwm** | **(£)** | |
|---|---|---|
| **Cyfraniadau Ariannu** | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,730) | |
| Cyngor Sir Ddinbych | (58,730) | |
| Cyngor Sir y Fflint | (58,730) | |
| Cyngor Gwynedd | (58,730) | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (58,730) | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (58,730) | |
| Prifysgol Bangor | (29,380) | |
| Prifysgol Wrecsam | (29,380) | |
| Coleg Cambria | (29,380) | |
| Grŵp Llandrillo Menai | (29,380) | |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | |
| **Cyfraniadau llog y Partneriaid** | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (13,420) | |
| Cyngor Sir Ddinbych | (11,870) | |
| Cyngor Sir y Fflint | (18,710) | |
| Cyngor Gwynedd | (13,730) | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (8,290) | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (23,210) | |
| Prifysgol Wrecsam | (10,070) | |
| Grŵp Llandrillo Menai | (9,080) | |
| **Eraill** | | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | (1,350,000) | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru (Staff Prosiectau) | (116,675) | |
| Cyfalafu costau staff | (60,000) | |
| Cronfa Llog | (412,085) | |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (60,990) | * |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,818,030)** | |
| **Cyllideb Net** | **0** | |

** Bydd hyn yn gadael amcan balans o £149,987 yn y gronfa wrth gefn.*

**Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2025/26** **Atodiad 2**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.81 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.98 | 3.27 | 3.27 | 0.94 | 0.41 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Digidol | Campws Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.80 | 5.10 | 9.80 | 4.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Digidol | Cysylltu ychydig ganrannau olaf | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.32 | 1.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 | 4.44 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 1.97 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 2.50 | 5.00 | 5.70 | 5.00 | 0.00 | 19.70 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.00 | 2.30 | 2.30 | 3.10 | 1.53 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Blaengar | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 3.13 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Ynni carbon isel | Prosiect wedi'i dynnu'n ôl (Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy) | Amh | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 3.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.40 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.90 | 1.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.49 | 11.49 | 11.49 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Warren Hall | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.38 | 7.39 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.47 | 3.47 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.93 | 1.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Gorllewinol, Wrecsam | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.48 | 4.48 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Tir ac eiddo | Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.40 | 3.40 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.79 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.71 | 0.25 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 6.52 | 4.28 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.57 | 2.85 | 0.01 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.30 | 3.70 | 0.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y BUEGC | | | 0.22 | 0.28 | 0.56 | 0.90 | 1.35 | 0.66 | 0.46 | 0.15 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Cyfanswm Rhaglen** | | | **0.34** | **1.94** | **1.68** | **12.51** | **29.61** | **40.86** | **59.28** | **42.58** | **22.45** | **8.10** | **8.20** | **7.33** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |

**Cyllideb Refeniw 2025/26 a Chyllideb Refeniw Drafft 2026/27 a 2027/28.** **Atodiad 3**

| | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | |
| **Gwariant** | | | | |
| Swyddfa Rheoli Portffolio | 1,924,770 | 1,937,070 | 1,994,650 | |
| Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol | 263,530 | 271,430 | 279,570 | |
| Cyd-Bwyllgor | 71,350 | 71,350 | 71,350 | |
| Prosiectau | 450,000 | 365,000 | 275,000 | |
| Trosglwyddiadau i gronfeydd | 108,380 | 0 | 0 | * |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,818,030** | **2,644,850** | **2,620,570** | |
| **Incwm** | | | | |
| Cyfraniadau Partneriaid | (469,900) | (483,980) | (498,480) | |
| Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol | (240,000) | (240,000) | (240,000) | |
| Cyfraniadau Llog y Partneriaid | (108,380) | 0 | 0 | * |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | (1,350,000) | (660,690) | (462,670) | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru (Staff Prosiectau) | (116,670) | (122,980) | (126,710) | |
| Cyfalafu amser staff | (60,000) | (60,000) | (60,000) | |
| Incwm o brosiectau | 0 | 0 | (50,000) | |
| Cronfa Llog | (412,090) | (1,077,200) | (1,182,710) | |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (60,990) | 0 | 0 | ** |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,818,030)** | **(2,644,850)** | **(2,620,570)** | |
| **Cyllideb Net** | 0 | 0 | 0 | |

** Bydd y cyfraniadau llog yn cael eu hailgyfrifo ar gyfer y blynyddoedd dilynol.*

*** Bydd hyn yn gadael amcan balans o £149,987 yn y gronfa wrth gefn.*

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**14eg o Chwefror 2025**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risgiau Chwarter 3 |
| **AWDUR:** | Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 3 (Hydref i Rhagfyr) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter3
- Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2024

4.4. <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3</u>

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 3 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais yr Achos Fusnes Amlinellol ar gyfer Parc Bryn Cegin, yn ogystal cymeradwywyd yr Achosion dros newid ar gyfer prosiectau Cyn Ysbyty Gogledd Cymru ac Anturiaethau Cyfrifol.

4.4.3. Y chwarter hwn, gwelwyd cymeradwyo diweddariad Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

4.4.4. Mae'r gwaith ar y ddau brosiect o fewn y rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch yn mynd yn dda. Mae'r adeilad Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn dal dŵr gyda'r gosodiadau mewnol yn mynd i mewn. Mae gwaith ar adnewyddu safle Henfaes ar gyfer prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn symud ymlaen yn unol ar amserlen.

4.4.5. Penodwyd dau ymgynghorydd cronfa i baratoi ar gyfer gweithredu y Gronfa Ynni Glân, sydd i fod i gael ei lansio yn 2025.

4.4.6. Daeth ymgynghoriad y diwydiant ar gyfer y prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig 4G + i ben yn ystod y chwarter, gydag adborth gwerthfawr yn cael ei dderbyn i lywio dyluniad yr ymyriadau. Dechreuodd y prosiect Di-wifr Uwch ymgysylltu â'r farchnad.

4.4.7. Mae diweddariad Chwarter 3 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio. Mae chwe prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Cysylltu yr Ychydig % Olaf – Bydd buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn band eang yn y rhanbarth yn dechrau yn dilyn caffael presennol ar gyfer ei fframwaith 'trawsranbarthol'. Bydd canlyniad hyn yn diffinio safleoedd ar gyfer ymyrraeth y Cynllun Twf.
- NEW-H2 - Mae'r prosiect yn cael ei adolygu yn dilyn i Uniper gadarnhau ei fod yn tynnu'n ôl fel un o gyd-noddwyr y prosiect, mae Wales and West Utilities ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau posibl i gydweithio â noddwr amgen i ddatblygu'r prosiect.
- Trawsfynydd - ansicrwydd ynghylch yr amserlenni cyflenwi oherwydd y penderfyniadau sy'n ofynnol gan Great British Nuclear a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd.
- Porth Caergybi – datblygu prosiect wedi ei oedi hyd nes y bydd canlyniad trafodaethau masnachol Stena Line gyda'r sector ynni alltraeth.
- Siwdios Kinmel – Mae noddwr y prosiect sef Stage Fifty wedi cael ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr, a'r prosiect yn cael ei adolygu o ganlyniad. Bydd cynigion diwygiedig yn cael ei cyflwyno i'w hystyried yn Ionawr 2025.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – gwaith i ail sgopio'r prosiect ar y gweill, gyda cais am newid prosiect yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.

4.5. <u>Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2024</u>

4.5.1. Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.

4.5.3. Mae'r risg gweddilliol ar gyfer buddsoddiad y sector gyhoeddus wedi lleihau oherwydd nifer yr Achosion Busnes Llawn sydd wedi cymeradwyo dan arweiniad noddwyr sector cyhoeddus.

4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, mae'r proffil risg yn parhau yn uchel gyda nifer o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys fforddiadwyedd, caniatáu, oedi ac buddsoddiad.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 |
| **Atodiad 2** | Cofrestr Risg y Portffolio – Rhagfyr 2024 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

"Un o brif dasgau'r Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 3. Ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol."

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cynllun Twf Gogledd Cymru Adroddiad Perfformiad Chwarterol

## 2024-25 Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr 2024)

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio | 3 |
| 02 | Perfformiad y Portffolio | 4 |
| 03 | Perfformiad y Rhaglen Ddigidol | 5 |
| 04 | Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel | 7 |
| 05 | Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo | 10 |
| 06 | Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 13 |
| 07 | Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 15 |
| 08 | Olrhain Cynnydd y Prosiectau | 17 |
| 09 | Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf- Achos Fusnes y Portffolio 2024 | 18 |
| 10 | Traciwr Amcanion - Trosolwg o gyflawni (Rhagfyr 2024) | 19 |
| 11 | Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf | 20 |
| 12 | Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf | 21 |
| | ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf | 22 |

# 01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Yn ystod y chwarter cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol Parc Bryn Cegin gan y Bwrdd Uchelgais: nod y prosiect yw darparu unedau cyflogaeth modern, carbon isel ac ynni effeithlon ym Mharc Bryn Cegin, Bangor gan greu cyfleoedd newydd o ran cyflogaeth ac ehangu busnesau. Mae'r cais cynllunio ar gyfer y safle hefyd wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd i'w ystyried. Mae'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, i'w gyflwyno am gymeradwyaeth gan y Bwrdd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd hefyd y cais am newid am gynnwys siglen yn y Prosiect Anturiaethau Cyfrifol, mae Achos Busnes Amlinellol y prosiect yn cael ei gwblhau yn barod i'w gyflwyno drwy'r broses gymeradwyo ym mis Ionawr/Chwefror.

Mae Achos Busnes y Portffolio wedi'i ddiweddaru ac wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

Cynhaliwyd Adolygiad Porth Portffolio blynyddol y Cynllun Twf gan banel o arbenigwyr annibynnol yn ystod mis Hydref. Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) yn gweithio ar fynd i'r afael â'r 4 argymhelliad a nodir yn yr adroddiad.

Yn ystod y chwarter penodwyd dau ymgynghorydd cronfa i ymgymryd â'r gwaith o baratoi ein Cronfa Ynni Glân, sydd i'w lansio yn 2025. Bydd CGGC yn gweithio ar y cyd ag Ynni Cymunedol Cymru ar is-gronfa'r sector gwirfoddol a bydd Umi yn arwain yr is-gronfa sy'n targedu'r sector preifat. Mae'r strategaeth fuddsoddi yn cael ei datblygu ar gyfer y gronfa fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cymeradwyo'r Achos Busnes.

Daeth yr ymgynghoriad â'r diwydiant ar gyfer y prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig 4G + i ben yn ystod y chwarter; cafwyd adborth gwerthfawr i lywio dyluniad yr ymyriadau. Dechreuodd y prosiect Di-wifr Uwch ei ymgysylltiad â'r farchnad yn dilyn cymeradwyaeth OBC y chwarter diwethaf.

Mae'r ddau brosiect o fewn y rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel yn gwneud cynnydd da. Mae'r gwaith o adeiladu'r Ganolfan Peirianneg Menter ac Opteg yn mynd rhagddo'n dda gyda'r adeilad bellach yn dal dŵr a'r gwaith gyda'r gosodion mewnol; aeth Hedd ac Elliw i'r safle i weld y cynnydd yn ystod y chwarter. Mae'r gwaith ar adnewyddu safle Henfaes ar gyfer prosiect y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn datblygu'n unol â'r amserlen.

Ym mis Rhagfyr daeth nifer o ffrydiau gwaith a ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ben. Mae'r tîm wedi sicrhau estyniad i amserlen y prosiect er mwyn cwblhau'r ffrydiau gwaith eraill. Daeth gwaith craidd ar y prosiect SPF sy'n asesu dichonoldeb 'cytundebau mynediad' asedau sector cyhoeddus ar gyfer defnydd telathrebu i ben yn ystod y chwarter gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Wrth edrych ymlaen at 2025 mae'n argoeli i fod yn flwyddyn gyffrous i Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf. Mae gwaith ar y gweill i drosglwyddo'r Cynllun Twf a thîm y Swyddfa Rheoli Portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig erbyn 1 Ebrill. Rydym ar y trywydd iawn i weld nifer o brosiectau yn symud i'r cam cyflawni yn ystod y flwyddyn.



**Alwen Williams**

**Cyfarwyddwr Portffolio**
**Uchelgais Gogledd Cymru**

# 02 PERFFORMIAD Y PORTFFOLIO

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Achos Busnes y Portffolio** | | Cafodd diweddariad Achos Busnes y Portffolio 2024 ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. |
| **Piblinell Cyflawni** | | Mae'r biblinell gyflenwi yn gyson ag Achos Busnes Portffolio 2024, gyda phrosiectau yn adrodd yn erbyn yr amserlen hon ar hyn o bryd. |
| **Llywodraethu** | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| **Sicrwydd** | | Cwblhawyd pumed adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) ym mis Hydref 2024 gyda'r adroddiad yn darparu sgôr hyder 'Coch' ar gyfer y portffolio. Cynhelir adolygiad dilynol o Sicrwydd y Cynllun Gweithredu (AAP) ym mis Ebrill 2025. |
| **Adnoddau a Chapasiti** | | Bydd Rheolwr y Rhaglen Ynni Carbon Isel yn gadael ei rôl ym mis Ionawr 2025; mae Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel dros dro wedi'i benodi am 6 mis wrth i ni benodi i'r swydd. Mae'r ymgyrch recriwtio ar y gweill ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae contractau cyfnod penodol (heb gynnwys staff a ariennir gan LEAP neu SPF) yn rhedeg tan fis Mawrth 2026, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr. |
| **Cyllid** | | Mae cyfanswm o £8.47m o gyllid y Cynllun Twf wedi'i wario hyd yma. Mae'r swm yn cynnwys £2.15m ar y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol, £4.81m ar y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac £1.51m i ariannu'r gwariant refeniw. |
| **Buddsoddiad** | | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar draws y portffolio. Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y Strategaeth Fuddsoddi yn ystod eu cyfarfod ym mis Mawrth. |
| **Risg** | | Mae'r proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn gyson â Chwarter 2. Mae caffael y fframwaith gwasanaethau cefnogi (argymhelliad PAR 2023) ar y gweill a disgwylir y penodiad yn Ch4. Mae nifer o risgiau gweddilliol uchel yn parhau sy'n cael eu rheoli gan y PMO gan gynnwys fforddiadwyedd, cydsynio, oedi a buddsoddiad. |
| **Monitro a Gwerthuso Buddion** | | Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gydag Uchelgais Gogledd Cymru a Noddwyr Prosiect ar sut i ddefnyddio'r platfform Adrodd am Fuddion. Mae'r holl brosiectau wedi uwchlwytho eu dangosyddion, mae'r ddau brosiect sydd yn y cam cyflawni wedi dechrau poblogi'r platfform gan alluogi timau'r prosiect, rhaglen a phortffolio i olrhain y cynnydd tuag at amcanion a buddion gwario. |
| **Allyriadau a Bioamrywiaeth** | | Mae drafft terfynol y fethodoleg symlach yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, yn barod i'w rannu yn gynnar yn 2025. Mae trafodaethau ar y gweill i ystyried cefnogi nifer fach o Awdurdodau Lleol fel 'Cynghorau Arloesi' fel modd o wreiddio'r fethodoleg. O dan arweiniad arbenigwyr pwnc Grant Thornton ac Arup, cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi rithiol ym mis Tachwedd 2024, gyda thua 70 o swyddogion awdurdodau lleol ac amgylcheddol yn bresennol. |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | | Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg ar gymeradwyo'r achos busnes amlinellol ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch; ethol ein Cadeirydd a'n Is-gadeirydd newydd, ein prosiect Cysylltedd Digidol Gwledig a ariennir gan SPF, cyllid Launchpad Technoleg Amaeth newydd, prosiect Gwaith Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy gan sicrhau buddsoddiad llawn gan y sector preifat, a phenodi ymgynghorwyr cronfa i ysgogi ein Cronfa Ynni Glân. Drwy gydweithio gyda Business News Wales, cynhyrchwyd podlediad yn canolbwyntio ar swyddogaeth Uchelgais Gogledd Cymru, a gefnogwyd gan erthyglau gan aelodau o'r PMO. Drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, rhoddwyd sylw i'n gweithdy gwerth cymdeithasol, cyfraniadau mewn digwyddiadau, recriwtio, cyfleoedd tendro, a phecyn o uchafbwyntiau diwedd blwyddyn i ddod â 2024 i ben. Parhau i dyfu wnaeth ein ymgysylltu a'n cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, a chafwyd 8.4k o ddefnyddwyr gweithredol ar ein gwefan. |

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

## Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

**Targed Creu Swyddi**
**380**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£158m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£41.7m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Daeth ymgynghoriad manwl y diwydiant ar y prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig '4G+' i ben yn ystod y chwarter, a derbyniwyd adborth gwerthfawr i lywio dyluniad y pedwar ymyriad arfaethedig. Mae paratoadau ar gyfer yr Achos Busnes Llawn bellach wedi datblygu'n dda.<br>• Daeth gwaith craidd ar y prosiect SPF sy'n asesu dichonoldeb 'cytundebau mynediad' asedau sector cyhoeddus ar gyfer defnydd telathrebu i ben yn ystod y chwarter gyda chanlyniadau cadarnhaol.<br>• Mae prosiect LPWAN Campysau Cysylltiedig bellach yn y cam dylunio rhwydwaith gyda chaffael cyfalaf i ddechrau yn ystod y chwarter nesaf. Mae'r prosiect Di-wifr Uwch wedi dechrau ymgysylltu â'r farchnad yn dilyn cymeradwyaeth OBC y chwarter diwethaf.<br>• Mae dibyniaethau yn parhau mewn perthynas â phrosiectau Yr Ychydig % Olaf a Ffibr Llawn, sy'n gysylltiedig â buddsoddiad band eang Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU, gyda disgwyl dyfarnu'r holl gontractau rhanbarthol erbyn y chwarter nesaf, fydd yn rhoi eglurder ynghylch ymyrraeth posib y Cynllun Twf. |



**Cyng. Mark Pritchard**
**Aelod Arweiniol**



**David Fitzsimon**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Stuart Whitfield**
**Rheolwr Rhaglen**

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | | Cyflawni Prosiect | • Achos cyfiawnhad busnes terfynol ar gyfer trydydd gwedd y cyllid i brynu offer a gyflwynwyd i'w gymeradwyo. | • Cymeradwyo'r achos cyfiawnhad busnes a phrynu offer | | • Yr Achos Cyfiawnhad Busnes Terfynol bellach wedi'i gyflwyno |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Prosiect cefnogaeth 'Cysylltedd Digidol Gwledig' y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i gwblhau. | • Contract buddsoddi band eang terfynol Llywodraeth y DU i'w ddyfarnu ar gyfer y rhanbarth | | • Buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn band eang yn y rhanbarth ar fin dechrau yn dilyn y caffael cyfredol ar gyfer ei fframwaith 'traws-ranbarthol'. Bydd canlyniad hyn yn diffinio safle ar gyfer ymyrraeth y Cynllun Twf. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **4G+** | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Daeth ymgysylltiad 4G + â'r farchnad i ben a drafftiwyd telerau'r cynlluniau ariannu.<br>• Gwaith 'Cytundebau Mynediad' y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i gwblhau | • Contract buddsoddi band eang terfynol Llywodraeth y DU i'w ddyfarnu ar gyfer y rhanbarth<br>• Achos Busnes Llawn 4G+ i'w gyflwyno ar gyfer adolygiad PMO | | • Mae prosiect 4G + bellach wedi ymgynghori â gweithredwyr rhwydwaith i gadarnhau'r gofynion ar gyfer yr ymyriadau arfaethedig |
| | **Ffeibr Llawn** | Datblygu'r Achos Fusnes Amlinellol | | | | • Bydd y prosiect Ffibr Llawn yn ailgychwyn yn dilyn canlyniad caffael traws-ranbarthol terfynol Llywodraeth y DU ar gyfer band eang gigabit. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | **Di-wifr Uwch** | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Ymgysylltu â'r farchnad ar gyfer prosiect Di-wifr Uwch ar y gweill | • Cynllun grant ac Achos Busnes Llawn drafft ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch. | | • Di-wifr Uwch bellach yn datblygu Achos Busnes Llawn. |
| | **LPWAN** | Cyflawni Prosiect | • Mae dyluniad rhwydwaith LPWAN bellach wedi'i gyfarwyddo, gyda'r bwriad o'i gwblhau yn Ionawr 25 | • Caffael offer ar gyfer y prosiect LPWAN a gwasanaethau gosod.<br>• Cynlluniau cyflwyno LoRaWAN y cynghorau i'w cyflwyno i Uchelgais Gogledd Cymru eu rhoi ar waith. | | • Mae LPWAN yn bwrw ymlaen gyda chynllunio rhwydwaith a pharatoi'r caffael uwch a chyfalaf. |

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

### Nod y Rhaglen


Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

**Targed Creu Swyddi**
**980**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£530m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£668.5m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Cydnerth** - Mae Achos Busnes Llawn Drafft wedi'i gyhoeddi yn dilyn cadarnhau costau'r prosiect a nodi datrysiad ar gyfer y bwlch ariannu.<br>• **Ynni Lleol Blaengar** - Ymgynghorwyr Cronfa wedi'u penodi ac yn datblygu'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer y gronfa i baratoi ar gyfer cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn yn Chwarter 1 2025-26.<br>• **Egni** - Prifysgol Bangor wedi cadarnhau y bydd datblygiad y prosiect yn cael ei ohirio nes bod sicrwydd ar gyllid Porthladd Rhydd Môn. |



Cyng. Gary Pritchard
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Swydd Wag
Elgan Roberts
Rheolwr Rhaglen

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Costau terfynol wedi'u cwblhau.<br>• Achos Busnes Terfynol drafft wedi'i gynhyrchu. | • Cyflwyno'r Achos Busnes Terfynol i'w gymeradwyo<br>• Cwblhau'r cytundeb ariannu terfynol.<br>• Cychwyn ar y safle. | | • Mae'r prosiect yn ambr tra bo'r Achos Busnes yn mynd drwy'r broses gymeradwyo. |
| **NEW-H2**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Uniper wedi cadarnhau eu bod yn tynnu'n ôl fel un o gyd-noddwyr y prosiect. | • Ar hyn o bryd mae Wales and West Utilities, y cyd-noddwr arall, yn chwilio am opsiynau posibl i gydweithio â noddwr amgen i symud y prosiect ymlaen. | | • Mae'r prosiect yn goch ar ôl i Uniper dynnu yn ôl. |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Prifysgol Bangor wedi cadarnhau y bydd datblygiad y prosiect yn cael ei ohirio nes bod sicrwydd ar gyllid Porthladd Rhydd Môn. | • Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. | | • Mae'r prosiect wedi'i ohirio yn amodol ar gymeradwyaeth Achos Busnes Llawn y Porthladd Rhydd gan Lywodraeth y DU. |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Penodi Ymgynghorwyr y Gronfa.<br>• Cwblhau'r gefnogaeth ar gyfer ysgrifennu ceisiadau SPF gyda rhai hawliadau yn ymestyn i'r chwarter nesaf. | • Cwblhau'r strategaeth fuddsoddi a'r Achos Busnes Llawn drafft.<br>• Cau pecyn cymorth ysgrifennu ceisiadau a ariennir gan SPF. | | • Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod y datblygiad tuag at yr Achos Busnes Llawn ar y trywydd iawn. |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid allweddol i ystyried opsiynau posibl ar gyfer Safle Trawsfynydd. | • Dim camau gweithredu sylweddol wedi'u cynllunio nes bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd. | | • Dim newid; Nid yw Trawsfynydd yn debygol o gael ei ddewis yng ngwedd gyntaf y datblygiadau niwclear newydd. Yn disgwyl am gadarnhad gan Lywodraeth y DU. |
| **Hwb Hydrogen Caergybi**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Menter Môn ac EDF Hynamics wedi cael trafodaethau cymeriant ('offtake') cadarnhaol gyda gwahanol gwmnïau i'w harchwilio ymhellach yn y flwyddyn newydd. | • Trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru a DESNZ i archwilio cyfleoedd i sicrhau cytundebau cymeriant gan y sector cyhoeddus;<br>• Cadarnhau amserlen datblygu achosion busnes gan fod mwy o sicrwydd cymeriant bellach. | | • Mae statws RAG yn parhau i fod yn ambr wrth i'r sefyllfa cymeriant barhau i gael ei chadarnhau. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

## Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.

**Targed Creu Swyddi**
**2280**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£129bn**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£355.4m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Neuadd Warren, Brychdyn** – Mae Llywodraeth Cymru a'u hymgynghorwyr yn trafod yr adroddiad cydymffurfio drafft ar ddiogelwch maes awyr Neuadd Warren Hall gydag Airbus UK ,gyda'r bwriad o gwblhau'r trafodaethau erbyn diwedd mis Ionawr 2025.<br>• **Porth y Gorllewin, Wrecsam** - Mae WSP wedi cytuno ar ragdybiaethau gwaelodlin i gynnal asesiad Lite Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ac yn y broses o gasglu tystiolaeth waelodlin i'w defnyddio yn eu model asesu.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** - Mae targed i gwblhau'r cytundeb A106 ym mis Ionawr 2025. Arafodd y trafodaethau ar y cytundeb ariannu gyda Jones Bros yn chwarter 3 ac mae'r PMO yn pwyso i gytuno ar y ddogfen ddrafft cyn y trafodaethau A106.<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor** - Cafodd Achos Busnes Amlinellol y Prosiect ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2024 a chyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y prosiectau i Gyngor Gwynedd. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Asesiad WelTAG Lite i barhau gydag adroddiad i'w gyhoeddi yn Ch4 2024/25 | • Cyflwyno'r adroddiad gan WSP gydag argymhelliad ynghylch sut i fwrw ymlaen gydag elfen cysylltedd priffyrdd prosiect Porth y Gorllewin. | | • Cafodd sgôr risg y prosiect ei ddiwygio i ambr ar ôl i Weinidog Trafnidiaeth a Gogledd Cymru nodi y gallai Llywodraeth Cymru adolygu argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Priffyrdd yn y dyfodol. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Llywodraeth Cymru, eu hymgynghorwyr ac Airbus UK yn cytuno ar gynnwys yr adroddiad drafft ac yn anelu at gwblhau'r trafodaethau hyn erbyn diwedd mis Ionawr 2025. | • Cwblhau adroddiad ymgynghorydd Llywodraeth Cymru ar allu'r safleoedd i gwrdd â'r achos diogelwch maes awyr gydag Airbus UK. | | • Sgôr risg y prosiect yn dal yn ambr gan nad yw adolygiad achos diogelwch y maes awyr wedi cael ei asesu a'i gytuno'n llawn gan Airbus UK. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Mae'r Achos Busnes Llawn wedi ei gymeradwyo, a mae'r prosiect yn symud ymlaen tuag at gyflawni. | • Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i gwblhau gan Lywodraeth y DU a'i ddychwelyd i Gyngor Sir Ddinbych.<br>• Cytundeb A106 yn gwneud cynnydd araf<br>• Trafodaethau cytundeb ariannu grant yn gwneud cynnydd araf ar ddiwedd yr haf. | • Cyfeiriad am Gymorth Cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'w gofrestru ar wefan yr Awdurdod;<br>• Cwblhau'r cytundeb ariannu gyda Jones Bros;<br>• Bydd A106 yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Ddinbych ym mis Ionawr 2025 ond gall lithro.<br>• Rhagwelir dechrau Cyfnod 1 ar gyfer diwedd Ch1 2025. | | • Sgôr risg gwyrdd wedi'i chadw ar gyfer y prosiect ar hyn o bryd. |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.<br>• Cyflwynodd SP Projects y cais cynllunio llawn ym mis Rhagfyr 2024. Cwblhau amcangyfrif cyllideb terfynol ym mis Awst. | • Cwblhau a chael cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Llawn<br>• Hysbysiad llawn o gyfeiriad Cymorth Cymhorthdal.<br>• Cwblhau'r Cytundeb Cyd-fenter<br>• Dechrau Gwahoddiad i Dendro | | • Cadw sgôr risg gwyrdd ar gyfer y prosiect gan ei fod ar y trywydd i'w gyflwyno ganol 2025. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Stena wedi gofyn am oedi datblygiad y prosiect tra'n disgwyl am ganlyniad eu trafodaethau masnachol gyda'r sector ynni ar y môr. | • Deialog barhaus gyda Stena o ran trafodaethau gyda datblygwyr Gwynt ar y Môr i asesu cynnydd. | | • Symud y sgôr risg i goch gyda'r trafodaethau gyda defnyddwyr terfynol ardaloedd newydd y porthladd i'w cwblhau cyn bwrw ymlaen. |
| **Stiwdios Kinmel** | Mae'r prosiect yn cael ei adolygu | • Mae trafodaethau gyda'r cyn Reolwr Gyfarwyddwr wedi cadarnhau bod dau ariannwr a chwmni Cynhyrchu Teledu a Ffilm o'r DU â diddordeb yn y prosiect. | • Cyflwyno cynigion diwygiedig i'w hystyried ym mis Ionawr 2025.<br>• PMO i wneud ymchwiliadau ei hun ynghylch galw a chyflenwi gofod stiwdio o fewn y DU. | | • Mae'r sgôr risg yn parhau i fod yn goch hyd nes y bydd rhagor o wybodaeth/trafodaethau. |
| **Porth Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r Tîm Ymgynghori yn datblygu'r Cais Cynllunio Amlinellol. | • Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol gan y Cyngor.<br>• Cyflwyno cais cynllunio amlinellol | | • Sgôr risg gwyrdd wrth i'r prosiect symud ymlaen i gam Achos Busnes / Cynllunio Amlinellol. |



**Cyng. Jason McLellan**
**Aelod Arweiniol**



**Andrew Farrow**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**David Mathews**
**Rheolwr Rhaglen**

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

## Nod y Rhaglen

Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn uchafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru gan ddarparu cyfleusterau cefnogol i sicrhau bod gan y rhanbarth y sgiliau i ragori ac i fod gyda'r gorau yn y byd. Bydd y Rhaglen hefyd yn sicrhau ffyniant drwy fanteisio i'r eithaf mewn modd cynaliadwy ar ein hamgylchedd a'n tirwedd.

**Targed Creu Swyddi**
**380**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£281m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£41.3m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Ambr | • Derbyniodd y prosiect Antur Gyfrifol sgôr Ambr yn yr Adolygiad Porth 2, canlyniad cadarnhaol iawn gyda dim ond dau argymhelliad hanfodol. Cyflwynwyd drafft cyntaf yr Achos Busnes Amlinellol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae'r cais cynllunio llawn ar gyfer y siglen a'r cais cyn-gynllunio ar gyfer y ddwy antur arall wedi eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd. Cymeradwywyd y cais am newid am gynnwys y siglen gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar 6 Rhagfyr 2024.<br>• Mae Cytundeb Ariannu Grant y Rhwydwaith Talent Twristiaeth bron â'i gwblhau. Cyflwynwyd y dewis ar gyfer yr is-ganolfan derfynol, mae Grŵp Llandrillo-Menai yn drafftio Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer cymeradwyaeth lawn. Penderfyniad Snowdonia Hospitality and Leisure i dynnu'n ôl o fod angen cyllid y Cynllun Twf, ail broses o ddewis is-ganolfan ar y gweill.<br>• Hwb Economi Wledig Glynllifon wedi cyflwyno'r newid arfaethedig i fwrdd y rhaglen. Bydd proses cais am newid ffurfiol yn dechrau yn Chwarter 4. |



**Cyng. Charlie McCoubrey**
**Aelod Arweiniol**



**Sioned Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Elliw Hughes**
**Rheolwr Rhaglen**

- Gwyrdd: Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Ambr: Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Coch: Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos dros newid | • Cyflwynodd y tîm prosiect y gwaith o ail-gwmpasu'r prosiect i fwrdd y rhaglen, a ofynnodd am ddechrau'r broses ffurfiol o gyflwyno cais am newid. | • Cais am newid i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Chwefror.<br>• Drafftio'r BJC sy'n ofynnol ar gyfer elfennau newydd o'r prosiect os cymeradwyir cais am newid. | | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi gyda'r prosiect ac ail-gwmpasu'r prosiect. |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Cyflawni prosiect | • Drafftio terfynol y Cytundeb Ariannu Grant.<br>• Cyflwyno dewis yr Is-ganolfan derfynol i'r bwrdd rhaglen a chymeradwyaeth i symud i ddrafftio'r Achos Cyfiawnhad Busnes.<br>• Ail-frandio wedi'i gwblhau gan Grŵp Llandrillo Menai<br>• Penderfynodd Snowdonia Hospitality and Leisure dynnu eu cais yn ôl am gyllid y Cynllun Twf; fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn rhan o'r prosiect ehangach. | • Cytundeb ariannu i'w gwblhau.<br>• Dechrau'r gwaith adeiladu.<br>• Cyflwyno BJC ar gyfer dewis yr is-ganolfan derfynol.<br>• Parhau i weithio gyda'r is-ganolfan arfaethedig cyn gwneud y penderfyniad terfynol a chyflwyno cais am newid. | | • Sgôr gwyrdd gan fod yr Achos Busnes Terfynol wedi'i gymeradwyo a chynnydd da wedi'i wneud ar y Cytundeb Ariannu Grant. |
| **Anturiaethau Cyfrifol**<br>ZipWorld | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygiad Porth 2 - Sgôr ambr, adolygiad llwyddiannus gyda dim ond dau argymhelliad hanfodol.<br>• Cymeradwyo'r cais am newid am gynnwys y siglen wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ar 6 Rhagfyr 2024.<br>• Cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer y siglen ar safle'r Penrhyn.<br>• Ceisiadau cyn-gynllunio ar gyfer y Fforiwr llechi a'r car cebl ar safle Llechwedd. | • Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd<br>• Mynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad Porth 2.<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br>• Cymeradwyo cynllunio ar gyfer y siglen<br>• Cyflwyno ceisiadau cynllunio llawn ar gyfer y ddwy antur ar safle Llechwedd. | | • Sgôr ambr yn bennaf oherwydd y risg gynllunio ond gwnaed cynnydd da gyda chymeradwyo cais am newid a'r Achos Busnes Amlinellol. |

# 07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

## Nod y Rhaglen

Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

**Targed Creu Swyddi**
**180**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£114m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£39.5m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Cynnydd da gyda'r gwaith o adeiladu'r Ganolfan Peirianneg Menter ac Opteg gyda'r adeilad yn dal dŵr a'r gwaith gyda'r gosodion mewnol. Adnabuwyd contractwr profiadol ar gyfer y gwaith adnewyddu yn Optig, rhywfaint o newidiadau oherwydd costau chwyddiant uwch. Lansiwyd proses gaffael bellach ar gyfer offer y prosiect. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn datblygu ei achosion Cyfiawnhad Busnes. Prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn mynd rhagddo'n dda, gyda gwaith adnewyddu Henfaes yn unol a'r amserlen. Caffael yr offer ar y gweill. |



**Gwag**
**Aelod Arweiniol**



**Tony Ward**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Elliw Hughes**
**Rheolwr Rhaglen**

- (Gwyrdd) Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- (Ambr) Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- (Coch) Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)


# 07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Wrecsam | Cyflawni Prosiect | • Derbyniwyd ymatebion tendr OpTIC, o ganlyniad i gostau chwyddiant, mae'r dyfynbrisiau wedi arwain at addasu'r cwmpas gwreiddiol; cynhaliwyd gweithdy gydag Uchelgais Gogledd Cymru i wneud penderfyniad ar ffordd bragmatig ymlaen i sicrhau na fyddai'r addasiad yn cael ei adlewyrchu wrth sicrhau'r buddion. Dim angen am gyllid ychwanegol.<br>• Cyhoeddwyd ITT ar gyfer offer Plas Coch.<br>• Datblygu Achosion Cyfiawnhad Busnes. | • Awdurdodi dyfarnu'r tendr ar gyfer adnewyddu ac offer OpTIC.<br>• Cymeradwyaeth derfynol i ddyfarnu'r tendr ar gyfer offer Plas Coch.<br>• Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes.<br>• Bwrw ymlaen â gwaith adeiladu Plas Coch yn unol â'r cynllun. | | • Prosiect yn cael ei gyflwyno ac ar y trywydd iawn |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Cyflawni Prosiect | • Mae'r cynnydd ar safle Henfaes ar y trywydd iawn<br>• Proses gaffael ar gyfer offer ar gyfer Thoday (gwedd 1) yn datblygu law yn llaw â'r PMO yn ôl yr angen. | • Camau olaf adnewyddu Henfaes<br>• Cwblhau'r broses gaffael. | | • Prosiect yn cael ei gyflwyno ac ar y trywydd iawn |

# 08 OL-RHAIN CYNNYDD Y PROSIECTAU

| Prosiect | | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynllunio llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Approval of the Full Business Case | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | 4G+ | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| | Ffibr Llawn | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | LPWAN | Dim angen caniatâd | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| | Do-wifr uwch | Dim gofynion caniatâd ar lefel y cynllun grant | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Yr Ychydig % Olaf | | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Cydnerth (Morlais) | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Trawsfynydd | | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Egni | | ✓ | ✓ | 🕒 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | | Dim gofynion caniatâd ar lefel y gronfa | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| NEW-H2 | | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Hwb Hydrogen Caergybi | | ✓ | ✓ | 🕒 | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | | ✓ | ✓ | 🕒 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Stiwdio Kinmel | | 🕒 | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Porth Wrecsam | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | | 🕒 | | | | *Prosiect yn cael ei adolygu* | | | | | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Anturiaethau Cyfrifol | | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

# 09 PIBLINELL CYFLAWNI PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF




| | Prosiect | Amserlen | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | | Rhag-21 | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig - 4G+ | | Maw-24 | Ebr-25 | Rhag-27 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig - Ffibr Llawn | | Maw-25 | Mai-26 | Rhag-27 |
| | Campysau Cysylltiedig - Diwifr Uwch | | Medi-24 | Ebr-25 | Rhag-27 |
| | Campysau Cysylltiedig - LPWAN (BJC) | | Gorff-24 | Hyd-24 | Rhag-27 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | | Gorff-24 | Maw-25 | Maw-26 |
| | Egni | | Rhag-23 | Awst-25 | Tach-26 |
| | Trawsfynydd | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | | Meh-25 | Ion-29 | Mai-30 |
| | Ynni Lleol Blaengar | | Maw-23 | Ebr-25 | Maw-30 |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | | Maw-25 | Ebr-26 | Ebr-28 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Amserlen y prosiect dan adolygiad | Rhag-26 | Medi-27 | Meh-29 |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | | Maw-26 | Maw-27 | Ebr-28 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | | Ion-24 | Ion-25 | Meh-26 |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | | Rhag-24 | Jully 25 | Meh-26 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | | Hyd-26 | Medi-27 | Awst-29 |
| | Porth Wrecsam | | Meh-25 | Medi-26 | Maw-28 |
| | Stiwdio Kinmel | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | | Maw-24 | Hyd-24 | Ebr-25 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | Ebr-22 | Maw-24 | Ebr-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Amserlen y prosiect dan adolygiad | | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | | Hyd-23 | Chwef-25 | Awst-26 |
| | Anturiaethau Cyfrifol | | Chwef-25 | Hyd-25 | Hyd-26 |

# 10 TRACIWR AMCANION – TROSOLWG O GYFLAWNI

| | | | Targedau Achos Fusnes Portffolio 2024 | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd | | | Gwir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/ FBC** | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | | | 2.96 | FBC | 33 | 2.96 | 16 | 2,33 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | | 133 | 4.17 | OBC | 130 | 4..17 | n/a | n/a |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | 4G+ | 82 | 10.04 | OBC | TBC at FBC | n/a | n/a | 0 |
| | | Fibre | 35 | | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | LPWAN | 20 | 39.04 | BJC | 20 | 1.14 | 0 | 0 |
| | | Advanced Wireless | 165 | | OBC | 130 | 20 | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | | | 13.87 | OBC | 230 | 13.87 | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | | 88 | 130.00 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Egni | | 49 | 3.94 | OBC | 49 | 3.94 | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | | 177 | 102.00 | OBC | 174 | 106.0 | n/a | n/a |
| | Trawsfynydd | | 111 | 244.12 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | | 20 | 28.77 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Prosiect wedi dynnu nol | | 33 | 31.64 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | | 360 | 43.36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | | 445 | 69.76 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | | 70 | 94.70 | FBC | 70 | 107.0 | 0 | 0 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | | 47 | 6.62 | OBC | 54 | 7.11 | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | | 647 | 170.70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Wrecsam | | 150 | 14.37 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Stiwdios Kinmel | | 200 | 32.00 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | | 92 | 16.79 | OBC | 96 | 12.85 | n/a | n/a |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | | 68 | 19.03 | FBC | 68 | 19.03 | 0 | 0 |
| | Anturiaethau Cyfrifol | | 175 | 12.40 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithygynhyrchu Uwch | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | 78 | 18.12 | FBC | 70 | 18.12 | 0 | 4.81 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | | 65 | 3.46 | BJC | 65 | 3.46 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Portffolio Cynllun Twf | | | | 5.15 | | | | 7 | 1.51 |
| Growth Deal Portfolio Total | | | | | 8 OBC<br>6 FBC | Wedi gymeradwyo | | Cyflawni | |
| | | | 3,575 | 1,123 | | 1,189 | 319.65 | 23 | 8.65 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio
** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn

# 11 CYNLLUN TWF – PROFFIL GWARIANT CYFALAF

| Rhaglen | Prosiect | Noddwr Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.81 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.98 | 3.27 | 3.27 | 0.94 | 0.41 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
